# YR YMOFYNYDD.

"PROFWCH BOB PETH: DELIWCH YR HYN SYDD DDA."—Paul.

## CHWEFROR, 1871.

---

### INFFIDEL.

Mr. Golygydd,

Y mae 'n beth rhyfedd, ond er rhyfedded, y mae 'n eithaf gwir, fod dadl ar bwnc o dduwinyddiaeth yn cynwys mwy o ddefnyddiau tân na dadl ar unrhyw bwnc arall. Fel rheol, nid oes dim yn gyru dynion i dymherau drwg at eu gilydd yn gynt ac yn waeth nag amau cywirdeb eu credo grefyddol. Dywedwch wrth ddyn ei fod yn gamsyniol yn ei *bolitics* (a pheth ddigon llidianol yw hyny), neu nad yw yn ffermo ei dir fel y dylai, neu nad yw ei anifeiliaid o'r rhywogaeth oreu, gwna siarad ac ymresymu â chwi o'r boreu hyd yr hwyr, ac ni byddwch yn ymadael yn waeth cyfeillion; ond anturiwch ddywedyd dim am ei Gyffes Ffydd, yna ni bydd yn hir cyn dechreu gwrycho, a chewch ei glywed yn ategu ei resymau âg ambell i lŵ, a da fydd y lwc os na cha 'r ddadl ei gorphen a'r dwrn. Yr wyf finau lawer gwaith wedi bod yn meddwl paham y mae dynion yn gyffredin mor ddrwg-anwydus pan y byddoch yn cyffwrdd â'u credo grefyddol? ond hyd yma wedi methu cyfrif am hyn gydâg un boddlonrwydd. Efallai y gwnaech chwi, Mr. Golygydd, pan y caffoch gymmaint a hyny o hamdden, neu rhai o'ch gohebwyr dysgedig, y rhai o honynt sydd yn deall dyn, gorph ac enaid, yn allanol ac yn fewnol, weled bod yn dda i anrhegu darllenwyr yr Ymofynydd âg erthygl ar y testyn. Byddwn i a llawer eraill yn wir ddiolchgar am hyn.

Yr ydwyf fi yn fy ffordd, ac yn ol fy medr, wedi dadleu cryn lawer yn fy mywyd, a hyny gan mwyaf ar bynciau crefyddol, ac â Thrindodiaid. Yr wyf wedi gweled rhai o honynt yn fflamio gan boethder eu sel, ac yn ymylu ar wallgofrwydd o eisiau fy nystewi. Mewn amgylchiadau o'r fath hyn gwn beth yw cael fy ngalw yn *Sosin*, yn *Ddeist*, *Atheist*, *Infidel*, a llawer o bethau eraill, a hyny gan ddynion na wyddant ystyr yr enwau yma mwy nag y maent yn wybod am ddifyniaeth *corpws* gwybedyn. Y maent wedi clywed y geiriau yma yn cael eu defnyddio mewn difriaeth grefyddol gan ddynion eraill, ac y maent hwythau yn eu mabwysiadu heb ystyried dim o'u hystyr na'u cymhwysder, pan y maent wedi dyspyddu eu holl resymau.

Yn yr erthygl bresenol, y mae yn fy mryd i alw sylw darllenwyr yr Ymofynydd at yr enw *Infidel*, yr hwn a roddir gan y sawl a dybia ei hun yn *iawnffyddiog* i arall yr hwn a ystyria yn *gamffyddiog*. O'm rhan fy hun nid yw fawr wahaniaeth genyf i gael fy ngalw yn *Infidel*, oblegid nid oes,

feddyliwyf, ddim yn y gair ei hunan ag sydd yn niweidiol. Nid yn y gair, neu 'r enw, y mae 'r drwg, ond yn yspryd cul ac angharedig y dynion hyny a wnant ddefnydd o hono er mwyn drwgliwio eu gwrthwynebwyr. Yn ol Dr. Johnson, ystyr y gair yw *Unbeliever*, hyny yw, anghredadyn,—anghredadyn mewn peth mae arall yn gredadyn; ac yn aml iawn mae anghrediniaeth mewn llawer o bethau yn well na chrediniaeth. Ar faes Cristionogaeth, anghredinwyr yw 'r paganiaid, nid am nad oes ganddynt gred, ond am nad ydynt yn credu yr un pethau ag y mae 'r Cristionogion yn gredu. Anghredinwyr yw pawb yng ngolwg y Mahometaniaid ond eu hunain. Mae 'r taenellwyr yn anghredinwyr am nad ydynt yn credu mewn bedydd trwy drochi, a'r un modd y trochwyr, am nad ydynt yn taenellu. Mae 'r Trindodwr yn galw yr Undodwr yn *Infidel*, nid am ei fod yn ddiffydd, ond am nad oes ganddo ffydd mewn Trindodiaeth. Mae gan yr Undodwr yr un hawl a'r un rheswm i alw 'r Trindodwr yn *Infidel*, am nad yw yn credu yn yr athrawiaeth o Undod diranedig y Duwdod. Nid yw Inffideliaeth ond mater o opiniwn yn unig, a gallaf fi fel anghredadyn yn eich golwg chwi, fod er hyny yn fwy cywir yn fy nghred.

Yr wyf yn dewis aros yn fy anghrediniaeth, ac yn boddloni i'r enw *Infidel* yn hytrach nag ymddarostwng i ragrithio—i broffesu crediniaeth ym mhynciau poblogaidd y wlad er mwyn rhyw fudr-elw neu gilydd, a minau, wrth eu hystyried, yn eu gweled yn hollol amddifad o synwyr, ysgrythyr, a phob peth teilwng o sylw, oddieithr fod teilyngdod mewn gwrthuni. Pe byddai i ryw gyfaill caredig, o dosturi tuag ataf yn crwydro yn fy amryfusedd, ymgymeryd â'r gorchwyl o'm hargyhoeddi, ac iddo lwyddo, yna gwnawn yn union gyfaddef fy nghamsynied, a byddwn ddiolchgar iddo am fy nhroedigaeth. Ond am newid fy ochr er mwyn gochelyd enwau câs fy ngwrthwynebwyr, tra 'r dyb o hyd yn aros yr un peth, nis gallaf wneuthur hyny, a phe gwnawn byddai fy ymddygiad i'r eithaf yn anheilwng, ac ni fyddwn yn un addurn gwirioneddol i unrhyw enwad yn y byd. Ond nid bob amser y mae dynion yn ymdrechu o blaid eu ffydd trwy *ymresymu*—nid yw o gymmaint pwys fod yr eglwysi a'r capeli yn cael eu llanw gan ddynion gonest a deallus, parod i roddi rheswm dros y gobaith sydd ynddynt,—cael y dorf yw 'r prif beth; a thrwy gant a mil o wahanol ddylanwadau, trwy bob ffordd ond trwy ymresymu ac argyhoeddi, llwydda 'r pleidiau yn rhyfedd yn hyn o waith. Ond pa faint o ddaioni wedi 'r cyfan yw hyn? Beth yw Cristionogaeth—beth yw 'r gwirionedd nes yn y blaen? Dim. Mae eisiau dysgu dynion i ymresymu, ac i adnabod pethau sydd a gwahaniaeth rhyngddynt, ac nid yn unig eu cael o nifer y praidd yn y man hyn a'r man, a marcio eu clustiau a *hollt yn y dê a thwll yn yr aswy*. Fel y mae gwaethaf y modd, y mae miloedd o Gristionogion mewn proffes, y rhai ni wyddant yn mha beth y mae Cristionogaeth yn rhagori ar Fahometaniaeth, ond eto a fedrant waeddi *Infidel* ar fy ol i ac arall gyd â llawer o hyawdledd. Pe byddai dynion yn arfer y galluoedd sydd ganddynt i wrandaw, darllen, cydmaru pethau â'u gilydd yn bwyllog, a barnu drostynt eu hunain, y mae yn ddiamau genyf y gwelent fod anghrediniaeth llaweroedd yn fwy cyson â'r gwirionedd na'u crediniaeth hwynt, hyny yw, fod y rhai a elwir yn Inffideliaid yn fwy o ganlynwyr yr Oen na'u cyhuddwyr.

Y mae yn fy meddiant lyfr hymnau Trindodaidd, ond gan fod y wyneb-ddalen yn eisiau, nis gallaf ddywedyd pa un ai casgliad neu gyfansoddiad yr un awdwr ydyw. Y mae iddo 540 o dudalenau. Darllenais y llyfr oll

drwyddo, ac nis gallaf lai na synu wrth hyd a lled, a dyfnder ac uchder hygoeledd Cristionogion y bedwerydd ganrif ar bymtheg, pan y gallant ganu mewn mawl i Dduw hymnau mor wrthun, os nid cableddus. Yr wyf yn teimlo mae mwy anrhydeddus a mwy Cristionogol yw bod yn *Infidel* na bod yn grediniwr yn ol barn dynion o'r *stamp* hyn. Wele yn canlyn rai llinellau a phenillion o'r hymnau crybwylledig; yr wyf yn galw sylw yr Undodiaid atynt er mwyn iddynt werthfawrogi eu hathrawiaeth eu hunain yn fwy, a'r Trindodiaid mewn gobaith y bydd i ambell un o'r rhai mwyaf ystyriol yn eu plith eu ffieiddio a'u taflu o'r neilldu, a mabwysiadu golygiadau mwy uchel a theilwng o'r Bod Mawr.

Fy enaid, gwel i ben Calfaria,
Draw rhyfeddod mwya' erioed;
Creawdwr nefoedd wen yn *marw*,
A'r ddraig yn trengu tan ei droed. 228.

Yr holl greadigaeth, bob enw, bob rhyw,
Edrychwn i fynu, *bu farw fy Nuw*;
Ac eto mae 'n llenwi y ddaear i gyd,
Anmhosib' yw marw Creawdwr y byd. 210.

Tebygwn mod i'n gwel'd ei *waed*
Yn llifo'n goch o'i ben i'w draed:
Fy nghalon, p'am nas tori 'n friw?
Fy Mhriod oedd efe, a'm Duw. 197.

Dacw 'r ardal nefol hyfryd
Pwrcas *poen* a *gwaed* fy Nuw. 430.

Mi gaf yno wel'd a garwy',
Gwel'd fy Iesu, gwel'd fy Nuw,
Gynt fu *farw* ar y groesbren,
Heddyw 'n ddysglaer, heddyw 'n fyw. 422.

Er marw fy Iesu, er *hoelio* fy Nuw,
Fe barodd ei gâriad trwy angeu yn fyw. 419.

Un sillaf ar y groes
O enau Crewr byd,
Yn *nyfnder angeu* loes
Sydd fwy nâ meiau gyd. 348.

O Iesu 'r *croeshoeliedig* Dduw!
Sy 'n fôr o ras at ddynolryw. 274.

'Does angel fyth na seraph,
Na cherub o unrhyw,
I'r filfed ran all dd'wedyd,
Mor werthfawr *gwaed* fy Nuw. 341.

Yr hoelion geirwon caled
Gynt a'i trywanodd E',
Sy 'n awr yn dàl y nefoedd
Gwmpasog yn ei lle;
Mae gobaith meibion dynion
Yn llifo i maes ynghyd
Oddiwrth yr awr *trywanwyd*
Creawdwr mawr y byd. 340.

Rhaid *marw* un ag sydd yn Dduw,
Darfydded haeddiant dyn. 235.

Dirgelwch o anfeidrol ryw
I'm Iesu *farw*, ac ynte 'n Dduw. 150.

Mi welaf *ddyn y'nghrog ar bren*,
Yn crymu ei ben i waered;
Fy *Nuw yw ef*; caned y byd
Ganiadau o gyd gynghanedd. 187.

Fe ofnodd y ddaear, hi grynodd yn wir,
Wrth wel'd ei Chreawdwr *dan hoelion o ddûr*. 189.

Pwy ddynion bwyai 'r hoelion main?
Pwy wisgai 'm Duw *â choron ddrain*? 198.

A gwel'd fy Nuw, sy 'n llanw 'r ne',
Yn *talu 'r dyled yn fy lle*. 218.

Cyfiawnder *friwiodd* Dduw dan draed
Gan fynu iawn â *Dwyfol waed*;
Ca's deimlo angeu gwaetha' ei glwy';
Ond ni all Sinai ei ofyn mwy. 239.

Mi wela fwy nâg aur Peru
Mewn defnyn bach o *waed* fy Nuw. 357.

Na'd fi ymddiried tra f'wyf byw,
Ond yn dy *angeu* di, fy Nuw;
Dy boenau a dy farwol glwy
Gaiff fod yn ymffrost i mi mwy. 359.

O ffynon fendigedig wiw,
Torodd o honi *waed* fy Nuw. 362.

Ac nid oes geny'n noddfa im'
Ond *haeddiant* Duw ei hun. 373.

Dyna 'r man na ddaw euogrwydd,
Dyfais Satan fyth na chwant:
Awel nef sydd yno 'n cadw
Pob rhyw ddrygau oll i bant;
Nid oes rhuad môr na 'i donau,
Na thymhestloedd o un rhyw,
Ond rhyw bur dangnefedd hyfryd
Yn *archollion* f' anwyl Dduw. 382.

Gâd i mi gael ffrwyth dy glwyfau,
Gâd i mi gael rhin dy wa'd,
Maddeu 'mhechod, gwel'd dy wyneb,
Ti fy Mhrynwr, a fy Nhad. 409.

O ddedwydd awr, O ddedwydd loes,
Bu 'm Duw yn *hongian* ar y groes,

Bu 'm Duw yn *hongian* ar y groes. 425.

Fe ga'wd croesau, lle ni phechwyd,
Pa'm gwrth'nebaf inau 'r groes,
Fe ga's Crewr nef ei hunan
Ar Galfaria *angeu loes*. 454.

Creded a gredo, yr wyf fi yn ormod o anghredadyn i arysgrifo y darnau dyfynedig uchod. Y mae rheswm (cnawdol neu beth) yn dywedyd wrthyf nad peth i'w gredu am fynyd yw, fod Creawdwr Hollalluog nefoedd, daear, a dynion, wedi cael ei ladd gan ei greaduriaid ei hun, fod yr Anfarwol wedi marw a bod mewn bedd; ac yr ydwyf yn cael fy nysgu yn yr Ysgrythyrau i ddywedyd "I'r Brenhin tragywyddol, anfarwol, anweledig, yr hwn yn unig sydd ganddo anfarwoldeb, sydd yn trigo yn y goleuni ni ellir dyfod ato, yr

hwn nis gwelodd un dyn, ac nis dichon ei weled; i'r hwn y byddo anrhydedd a gallu tragywyddol." Yn wyneb y dystiolaeth ysgrythyrol uchod, *Infidel*, meddai dynion, yw pob dyn na chredo yng *ngwaed*, *poen*, *clwyfau*, *angeu*, a *haeddiant* Duw, na chredo fod Penllywydd nef a llawr wedi cael ei *wisgo á choron ddrain*, wedi dyoddef arteithiau 'r hoelion dûr, wedi bod yn hongian ar y groes, ac wedi marw, ie wedi MARW! Yr wyf yn cyffesu fy mod yn ddigon o *Infidel* i beidio credu 'r gwrthuni cableddus hwn, ac yn dymuno cael grâs i barhau yn fy Inffideliaeth tra y byddwyf byw yn y byd. Mae 'r byd yn myned yn y blaen yn y celfau a'r gwyddorion, ond bach, hyd at ddim braidd, yw 'r cynydd mae dynion wedi wneuthur mewn crefydd. Mae athrawiaethau cyfeiliornus oesoedd y tywyllwch gynt yn cael derbyniad gan blant goleuni y bedwerydd ganrif ar bymtheg, ac nid oes fawr argoel y cant yn fuan eu taflu i'r wadd ac i'r ystlum, fel y maent yn teilyngu. Y sawl a gredo fod Duw wedi marw sydd yn abl i gredu pob peth: mae cosyn yw 'r lleuad, i Sarah Jacob allu byw am flwyddyn a haner heb fwyd, mai ysgrythyr bob gair yw hanes *Gulliver* am wlad y *lillipwtiaid*, ac mai gwirionedd dilys yw pob sill o deithiau *Baron Manchausen*. Y sawl a gredo fod Duw wedi marw a grêd hefyd, os t'rawa yn ei ben, mai peth dichonadwy a rhwydd ddigon yw gwasgu 'r belen ddaearol hon, ein byd ni, a'i chynwys oll mewn cragen *gocsen*. Mae dynion yn *actio* yn gall ddigon, ar y cyfan, mewn pethau cyffredin, ond mewn pethau crefyddol, mae llawer o honynt yn ddwl glân, a dwl fyddant hyd nes y peidiont edrych ar eu hoffeiriaid a'u pregethwyr fel anffaeledigion. Athrawon y bobl yw ffynonau pob dwli crefyddol sydd yn y byd. Bobl, barnwch drosoch eich hunain, a byddwch yn ddynion—byddwch yn Gristionogion mewn barn a buchedd.

UNDODWR.

## Pregeth.

*Y Bregeth ganlynol a draddodwyd yn Cwmmwrda yn Nghyfarfod Chwarterol y Pasg*, 1870, *gan y Parch. E. W. Lloyd, Cwmbach, Aberdare.*

Luc ix. 46, a'r rhan olaf o'r 48.—"A dadl a gyfododd yn eu plith, pwy fyddai fwyaf o honynt." "Canys yr hwn sydd leiaf yn eich plith chwi oll, hwnw a fydd mawr."

PAN oedd yr amser yn cyflym agoshau pryd y buasai yr Arglwydd Iesu Grist yn cael ei symud oddiar chwareufwrdd amser gan ei elynion, y rhai oeddynt wedi bod am hir amser bellach yn dyfeisio cynlluniau bradychus i'w amddifadu o'i fywyd; yr ydym yn cael ein hyspysu fod ymryson wedi cymeryd lle rhwng y dysgyblion gyda golwg ar ba un o honynt fuasai yn cael ei ethol fel tywysog, neu ben, i'r hwn y buasai y lleill oll i ymostwng, ac i gymeryd eu llywodraethu ganddo.

Fel yn y dyddiau gynt, felly yn y dyddiau presenol, y mae rhyw awydd mewn llawer o ddynion am lywodraethu neu deyrnasu ar eraill, yn hytrach nag ymostwng i ddewisiad eu gwell, eu doethach, a'u duwiolach.

Gwell gan lawer o honom gael ein gwasanaethu nag i wasanaethu eraill, ac oblegid hyny yr ydym mewn cyffelyb gyflwr meddwl i'r hwn oedd y dysgyblion ynddo pan lefarwyd geiriau ein testyn. Nid oeddynt hwy, hyd yn hyn, wedi deall natur teyrnas y Gwaredwr.

Yr oeddynt yn meddwl mae teyrnas ddaearol oedd, ac oblegid hyny yn awyddus iawn i gael gwybod pa un o honynt fuasai i gael eistedd yn y lle uchaf yn y deyrnas hono; a chan fod pob un o honynt yn ymgeisydd am yr orsedd, neu y frenhiniaeth, nid oedd ond peth naturiol ddigon iddynt ymrafaelio a dadleu a'u gilydd. Gan eu bod yn cael eu llywodraethu gan egwyddorion hollol groes i'r rhai hyny a lywodraethai Pen Bugail mawr yr eglwys, nid ydym yn synu oblegid eu hymrafaelion â'u gilydd. Yr oedd pob un o honynt o bosibl yn gobeithio mae efe fuasai yn cael yr anrhydedd uchaf, ac y buasai y lleill oll yn weision iddo. Yr oeddynt yn porthi balchder yn hytrach na meithryn gostyngeiddrwydd; yn boddio y cnawd yn hytrach na marweiddio ei weithredoedd, a bod yn ostyngedig o galon, ac yn awyddus i gysuro a dyddanu, goleuo, a sancteiddio eu gilydd. Gan eu bod wedi colli golwg ar y modd ag y dylent amcanu ati, yr oeddynt yn myned ar gyfeiliorn, ac yn hytrach na thramwy ar hyd y llwybr cul a chymwys, yr oeddynt yn teithio ar hyd y ffordd lydan, diwedd yr hon yw dystryw; a chan fod ein Hiachawdwr yn gwybod eu bod wedi camddeall mor anghyffredin natur ei deyrnas a'u dyledswyddau eu hunain, y mae yn ymdrechu eu hargyhoeddu o'r camsynied hwnw, ac nid yn unig eu hargyhoeddu o'u camsynied, ond hefyd goleuo eu deall yn y fath fodd ag i'w gwneuthur yn ostyngedig o galon. A gyda golwg i effeithio hyny, y mae yn galw eu sylw at blentyn bychan, yn yr hwn nid oedd dim balchder, hunanoldeb, nac awydd am ddyrchafiad bydol, ond i'r gwrthwyneb, ac y mae yn dywedyd wrthynt, os ydynt am fod yn ddynion mawr y'ngwir ystyr y gair, fod yn rhaid iddynt gyfnewid eu dull o feddwl, ac o fyw a gweithredu. Dywed wrthynt, os ydynt am fod yn ddysgyblion cywir iddo ef, fod yn rhaid iddynt gael eu gwneuthur yn ddifalch ac yn bur, yn addfwyn ac yn dosturiol, yn faddeugar, ac awyddus i gynorthwyo a chadarnhau eu gilydd yn y sancteiddiolaf ffydd. "A'r Iesu, wrth weled meddwl eu calon hwynt, a gymerth fachgenyn, ac a'i gosododd yn eu hymyl. Ac a ddywedodd wrthynt, pwy bynag a dderbynio y bachgenyn hwn yn fy enw i, sydd yn fy nerbyn i, a phwy bynag a'm derbynio i, sydd yn derbyn yr hwn a'm hanfonodd i; canys yr hwn sydd leiaf yn eich plith chwi oll, hwnw a fydd mawr." Yn awr, ymddengys i mi fod dau beth yn neillduol yn dyfod i'r amlwg yn y testyn.

1. Fod ymgais am fawredd, ac awdurdod ar gydwybodau eralll yn anghydweddol a chymeriad y cristion.

2. Mai gostyngeiddrwydd ac addfwynder yw y pethau sydd yn gweddu iddo fel dysgybl i'r hwn oedd addfwyn a gostyngedig o galon.

Gwnawn ychydig sylwadau ar y ddau ben yma, ac yna cawn derfynu trwy dynu casgliad cyffredinol ac ymarferol.

1. Fod ymgais am fawredd ac awdurdod ar gydwybodau eraill yn anghydweddol a chymeriad y cristion. Un isel a gwir ostyngedig ydyw hwn. Amrywiol iawn yw y ffyrdd trwy y rhai y mae gwahanol bersonau, o bryd i bryd wedi ceisio cyrhaedd eu hamcanion.

Y mae genym hanes am y gau brophwyd Mahomet, yr hwn a arferodd y cleddyf, ac a laddodd ei filoedd ag ef, i'r dyben i sefydlu yr hyn a ystyriai ac a gredai ef yn grefydd bur a dihalogedig. Gwae i'r neb fuasai yn yngan un

gair yn ei erbyn. Nid oedd a fynai ef â'r gwirionedd hwnw, sef, mai i'w Arglwydd ei hun y mae pob creadur rhesymol yn gyfrifol am ei syniadau, ac nid i neb dynion gan nad beth fydd eu hawdurdod a'u dylanwad. Yr oedd wedi ei lanw ag yspryd trais a gormes i'r fath raddau, ac yn balchio cymmaint yn ei syniadau, fel nad ystyriai neb tu fewn cylch cadwedigaeth ond ef a'i blaid, ac y mae yn syndod meddwl, ar un olwg, sut y bu mor llwyddianus, yn ei dyb ei hunan, i sicrhau ei amcan; ond ar y llaw arall, pan ydym yn cymeryd dan ein hystyriaeth ddylanwad yr awchus gledd, a'r ffaith ei fod yn feddianol ar awdurdod mor ëang ar ei bobl nid ydym yn synu cymmaint. Wedi iddo lwyddo i wneyd cyfeiliornad i ymddangos fel gwirionedd, yr oedd ei ganlynwyr yn eu tywyllwch a'u hanwybodaeth, ac yn eu sel dall-bleidiol yn galw tywyllwch yn oleuni, a goleuni yn dywyllwch. "Pan dybient eu bod yn ddoethion, hwy a aethant yn ffyliaid."

Gan mai bri a mawredd daearol oedd gan y gau brophwyd mewn golwg, nid oedd waeth ganddo ef pa fesurau fuasai yn eu dyfeisio er sicrhau ei amcan, ac felly yn dangos ei awydd am fawredd ac awdurdod ar gydwybodau eraill, tra, ar yr un pryd, yn amddifad o'r gostyngeiddrwydd a'r mwyneidd-dra hyny sydd yn nodweddi y gwir gristionogion, y rhai ydynt—

"Yn erbyn rhyfel a'u holl gais,
Yn erbyn trais y beilchion;
Mewn isel fryd amcanant fyw
Yn heddwch Duw a dynion."

Yr un egwyddorion a lywodraethai Mahomet oeddynt hefyd yn llywodraethu rhai o ganlynwyr enwol yr Arglwydd Iesu Grist yn ei ddydd. "A'i ddysgyblion ef, Iago ac Ioan, pan welsant, a ddywedasant, Arglwydd, a fyni di ddywedyd o honom am ddyfod tân i lawr o'r nef, a'u difa hwynt, megys y gwnaeth Elias. Ac efe a drodd, ac a'u ceryddodd hwynt; ac a ddywedodd, ni wyddoch chwi o ba yspryd yr ydych chwi; canys ni ddaeth Mab y dyn i ddistrywio eneidiau dynion, ond i'w cadw."—Luc ix. 54, 55, 56. Nid ydych yn gwybod dim y'nghylch natur teyrnas nefoedd, yr hon sydd i gael ei sefydlu, nid trwy arferyd arfau cnawdol, ond trwy arferyd cleddyf yr yspryd, yr hwn yw gair Duw. Nid ydych ychwaith wedi meddwl am y canlyniad anhapus a gresynus fuasai yn cymeryd lle, pe buaswn yn cyduno a'ch cais afresymol. Ni ddaethum i'r byd i anog dynion i gashau eu gilydd, ac i siarad a dymuno yn ddrwg y naill i'r llall, ac i losgi eu gilydd, ond i beri iddynt i garu, ac i gydymdeimlo a dwyn beichiau eu gilydd.

Gwyddom am eraill sydd dan enw cysygredig crefydd wedi condemnio, a chwedi trosglwyddo eu cydgreaduriaid yn bur ddiseremoni i'r fflamiau tragywyddol, am eu bod, wrth arferyd eu rheswm a'u deall, wedi cael golwg wahanol iddynt hwy ar y gwirionedd.

Y mae y Pab o Rhufain, offeiriadon a phregethwyr ein gwlad ein hunain, am hyny, wedi cymeryd arnynt y gorchwyl o haeru beth yw y ffydd gadwedigol, ac i fod yn rhaid i bawb ei chredu a'i chadw yn ddihalog, os ydynt yn disgwyl parhâd gwenau y nefoedd. Y maent yn eu hamgais am fawredd ac awdurdod ar gydwybodau eraill yn gwneuthur eu hunain yn wrthddrychau dygasedd, neu efallai o dosturi, y sawl sydd yn argyhoeddiedig o'r ffaith fod galwad arbenigol arnynt i chwilio, meddwl, a barnu drostynt eu hunain.

Gyda 'r fath haerllugrwydd y clywn rai dynion anwybodus a dibrofiad yn condemnio ac yn collfarnu y sawl y maent hwy oddiar eu huchelfanau balch

dychmygol yn edrych i lawr arnynt gyda diystyrwch, ac yn cyhoeddi y ddedfryd "gwae" uwch eu penau. Ydyw yn wir, y mae yn syndod meddwl sut y mae rhai dynion yn gallu bod mor awdurdodol ac mor benderfynol yn eu gwaith, yn eu hyspryd sectyddol a'u culni meddyliol, yn condemnio pawb a phob peth nad yw fel y tybient hwy y dylai fod. Y mae gormod o babau bychain, neu anffaeledigion, yn eu tyb eu hunain, yn codi eu llais yma a thraw.

Gwir yw y dylai pawb fod yn selog dros, ac yn amddiffyniad yr hyn a gredant sydd wirionedd y nef. Y mae yn ddyledswydd orphwysedig ar bawb, ac ar bob cristion yn arbenig i fod yn llafurus, yn ddiwyd, ac yn effro o blaid ei egwyddorion crefyddol. Dylai adael ei oleuni lewyrchu yn mhlith ei gyd-ddynion, fel y gwelont ei weithredoedd da ef, ac y caffont eu dwyn trwy hyny i ogoneddu y Tad perffaith, yr hwn sydd yn y nefoedd.

Rhy fach o hyn sydd i'w ganfod yn ein heglwysi, a gormod o gysgadrwydd ac oerfelgarwch yn ein plith gyda golwg ar ein hegwyddorion; ond ar y llaw arall, nid yw yn gweddu i ni gondemnio neb pwy bynag oblegid eu bod, wrth arfer eu rheswm a'u deall da yn gydwybodol, yn dyfod i wahanol gasgliadau i ni; ond yn hytrach dylem barchu rhyddid eraill fel yr eiddom ein hunain. Ni ddylem, ac nid yw yn gweddu i ni, greaduriaid y llwch, gwan ac amherffaith, i gollfarnu ein brodyr, plant yr un Tad cariadlawn.

I'w Arglwydd ei hun y mae pob dyn yn sefyll, neu yn syrthio. "Myfi bia dial, myfi a dalaf, medd yr Arglwydd."

Ond o herwydd fod llawer mor ddall-bleidiol, ac mor sectyddol, ac am eu bod yn meddwl nas gall teyrnas fodoli yn un man tu allan i'w heglwys hwy, y maent, yn eu hynfydrwydd, yn condemnio pawb eraill ac yn gosod eu hunain megys ar orsedd y Duwdod, ac felly yn tebygu i'r sawl y cyfeirir atynt yn ein testyn, hyny yw, am fod yn fwyaf, a phawb i ymostwng i'w hawdurdod, ac i roddi y lle uchaf iddynt hwy, gan nad pwy fydd yn y lle isaf, a gwae i'r sawl a amheuo eu hawl i'r lle blaenaf a mwyaf cyhoeddus, a'r tebygolrwydd yw y buasai y dysgyblion cyntefig yn parhau hyd ddiwedd eu hoes rywbeth yn debyg oni buasai i'r Iesu weled yn amlwg mewn pryd at beth oedd eu meddyliau yn gogwyddo, y'nghŷstal a pha beth oedd eu syniadau am dano ef, a natur ei deyrnas, ac am danynt eu hunain.

Yr oedd yn amlwg i weled eu bod yn amddifad o'r rhinweddau hyny ydynt yn addurno ac yn dyrchafu y cymeriad, ac yn llefaru tangnefedd wrth yr enaid. "A dadl a gyfododd yn eu plith, pwy fyddai fwyaf o honynt." Nid pwy ddylai wasanaethu y llall. Nid pwy ddylai ddangos fwyaf o ostyngeiddrwydd, ac o amynedd i ddysgu yr anwybodus, a thrwy hyny eu codi o'r cyflwr anobeithiol oeddynt ynddo i gyflwr arall a llawer gwell. Nid pwy fuasai yn hiraethu, ac yn sychedu fwyaf am gyfiawnder a sancteiddrwydd, ac am ymdebygoli i'w feistr mawr mewn rhinwedd, amynedd, ac addfwynder, ond pwy gelai y flaenoriaeth yn y deyrnas ddaearol wedi ei ymadawiad ef at y Tad, ïe, pwy gelai ei barchu a'i anrhydeddu fwyaf, a pha un gelai eistedd ar y gadair uwch, neu y *seat of honour*, i hawlio ymostyngiad y lleill. Mewn gair, yr oeddynt yn gnawdol, fel dywed yr Apostol Paul am y Cristionogion yn Corinth, ac y mae y desgrifiad mae ef yn rhoddi o honynt hwy yn un pur gywir o'u cymeriadau hwythau, ac o gymeriadau llawer o gristionogion yn ein gwlad ni, a gwledydd eraill.

Y mae llawer ag sydd yn bresenol wedi darllen hanes Keshub Chunder Sen, y dyn enwog o Bombay (India ddwyreiniol), yr hwn sydd wedi dyfod

i dalu ymweliad a'r wlad hon. Er ys llai na phythefnos yn ol, cafodd roesawiad cyhoeddus mewn ystafell eang yn Llundain gan wahanol enwadau crefyddol. Gwyddai llawer o'r gwyddfodolion yn bur agos o leiaf beth oedd ei syniadau ef, ac yr ydym yn rhwym o dd'weyd fod rhai o'r dynion a gymerasant ran yn y cyfarfod hwnw, wedi enwogi eu hunain ar gyfrif eu rhyddfrydedd. Y'mhlith sylwadau eraill a wnaeth Mr. Sen, dywedodd ei fod yn teimlo yn ddiolchgar iawn i bobl Lloegr am eu hymdrechiadau i ddanfon cenadon Cristnogol i'w wlad ef i gristioneiddio y bobl. Dywed fod yr amcan yn ddiau yn dda, ond dywedodd gyda llaw mai peth dymunol iawn fyddai i drigolion y wlad hon i ddanfon dynion o gymeriadau dysglaer yno. Dywedodd fod rhai o'r cyfryw i'w cael yno, ond er gwaetha 'r modd, fod llawer o honynt yn pregethu un peth, a byw fel arall, ac felly yn gwneyd mwy o niwed nac o ddaioni i'r achos Crist'nogol—yn creu rhagfarn yn y brodorion, ac yn peri iddynt amheu purdeb Cristnogaeth oblegid fod bucheddau y sawl sydd yn ei phleidio yn amhur.

Dyma 'r cyhuddiad a ellir ei ddwyn yn mlaen o bosibl yn erbyn llawer o'r regethwyr ac offeiriadon ein gwlad ninau.

"A myfi," medd Paul, "frodyr, ni allwn lefaru wrthych megys wrth rai ysprydol, ond megys rhai cnawdol, megys wrth rai bach yng Nghrist, canys cnawdol ydych chwi eto; canys tra fyddo yn eich plith chwi genfigen, a chynen, ac ymbleidio, onid ydych yn gnawdol, ac yn rhodio yn ddynol?"—1 Cor. iii. 1, 3.

Fel oedd y Cristnogion yn Corinth, felly yr oedd y dysgyblion cyntefig ar yr amser y llefarwyd y testyn.

(*I'w diweddu yn y nesaf.*)

---

## YSBRYD CAS Y SECTAU A'R EGLWYS SEFYDLEDIG.

*At Olygydd yr "Ymofynydd."*

Syr,

Onid yw yn dra nodadwy fod chwenychiad gan laweroedd o Drindodiaid dall-bleidgar i restri yr Undodiaid, neu y "Sociniaid," fel y dewisant eu galw, gyda "Anffyddwyr, Mormoniaid, Pabyddion, ac Iuddewon," a phob enw arall a feddyliant sydd yn gas gan y werinos? Mae cyhoeddiad a osodwyd ar droed yn ddiweddar gan bleidwyr yr Eglwys Sefydledig, a elwir *Y Dywysogaeth*, yn dra chwanog i hyn, megys yn Rhif. 20. Yr wyf wedi meddwl llawer gwaith am yr achos o'r fath ymddygiad, ac wedi dod i benderfyniad fod yn rhaid mai un o ddau beth ydyw, sef, naill ai anwybodaeth yr ysgrifenwyr, neu ynte, ddymuniad o'u tu i warthruddiaw yr Undodiaid, er mwyn porthi a chynal i fyny ragfarn y werin anwybodus yn eu herbyn. Gwyddant nas gallant wrthwynebu yn llwyddianus gynydd Undodiaeth unrhyw ffordd arall, ond trwy nwyfweini i ragfarn ac anwybodaeth eu darllenwyr. Meddwl wyf mai hyn yw eu gwir fwriad, ac nad yw eu hymddygiad yn tarddu oddiar anwybodaeth hollol o Undodiaeth. Anhawdd yw genyf

gredu y gall y mwyrif o offeiriaid yr Eglwys Sefydledig fod yn anwybodus y'nghylch barn grefyddol yr Undodiaid. Yr wyf, wrth gwrs, yn cymeryd yn ganiataol mai rhai o honynt hwy yw prif ysgrifenwyr y cyhoeddiad a enwyd. Mae ym mhlith yr offeiriaid eu hunain lawer o Undodiaid o ran eu barn, gan nad pa fodd y cysonant eu barn â'r addefiad a wnant eu bod yn credu pob peth yn y Llyfr Gweddi Cyffredin. I fod Undodiaid yn eu plith yn awr, fel cynt, sy ffaith rhy adnabyddus i ganoedd i ofyn prawf, ond credu wyf mai nid neb o'r fath yma yw gohebwyr *Y Dywysogaeth*. Gwyr pawb sydd yn adnabyddus â syniadau yr Undodiaid, nad oes un math o gyffelybrwydd rhyngddynt â'r "Mormoniaid." Felly hefyd am y Pabyddion. Mae gwahaniaeth dirfawr rhwng Undodiaeth a Phabyddiaeth. Maent mor groes ag yw tywyllwch i oleuni. Pe rhestrid offeiriaid yr Eglwys Sefydledig, fel corph, gyda 'r Pabyddion, byddid yn llawer nes i'r gwir. Pwy ond hwy sydd yn awr yn ymdrechu, fraich ac ysgwydd, i adferu pabyddiaeth yn y wlad hon? Hefyd, am "Anffyddwyr ac Iuddewon." Os wrth "Anffyddwyr" y dealla ysgrifenwyr o'r clâs a berthyn i'r *Dywysogaeth*, anghredinwyr yn y grefydd Gristnogol, gwyddus o'r goreu nad oes un enwad yn credu yn gadarnach yn Nghrist na 'r Undodiaid. Yn wir, nid oes neb wedi amddiffyn Cristnogaeth yn fwy cryf a llwyddianus yn erbyn ymosodiadau anffyddwyr na rhai o'r Awdwyr Undodaidd. A wyr goleuadau "Y Dywysogaeth" mai Undodwr oedd Dr. Landner, os gwyddant am yr enw, chwaethach am ei ysgrifeniadau? Am yr Iuddewon, mae yn wir fod yr Undodiaid yn credu yn undod diranedig y Duwdod fel y gwnant hwythau, ac mor belled a hyny y maent yn cytuno, ond gyda golwg ar Grist, nid ydynt yn cytuno, oblegid mae 'r Undodiaid yn ei dderbyn fel y Messiah, tra mae 'r Iuddewon yn ei wrthod. Mae hyn yn wahaniaeth dirfawr, debygwn. Ond yn fyr, beth a feddyliwn am y fath ysgrifenwyr â'r rhai y cyfeiriwn atynt? A ydyw hi mewn gwirionedd wedi myned mor wan ar yr Eglwys Sefydledig yng Nghymru fel mae yn dda ganddi roddi cefnogaeth i rai mor wael? Os ydyw, fel mae yn debyg, mae yn dlawd arni yn wir. Y maent yn sicr o wneyd mwy o ddrwg nac o dda iddi.

Ydwyf, yr eiddoch,
D. J.

---

## PSALM I'R HAUL.

Hybarch Olygydd,

Dyma loffion o ddillynion y diweddar Fardd Talhaiarn i chwi, gan obeithio y cant ymddangos genych ar unwaith ar dudalenau yr Ymofynydd, gan y barnaf eu bod yn drylawn o synwyr, a'r iaith yn orwych ac ysblenydd; mewn gair, credwyf ei bod yn un o'r *cyfansoddiadau* aruchelaf, a mwyaf penigamp a feddwn yn yr iaith Gymraeg.

Ydwyf, &c.,
Cynonfab.

1. Henffych, odidog Arglwydd y gwawl: y gogoneddusaf o grêadau yr Hollalluog Dduw.
2. Tydi yw Tad y gwres a'r goleuni: unig a mawreddus ydwyt yn dy gain ogoniant.
3. Canolbwynt bydoedd dirifedi: y planedau a'r ser a'th amgylchynant, ac a'th hoffant o hirbell.

4. Nid yw gogoniant y ser ond adlewyrchiad o danbeidrwydd dy wawl: dwl ac anweledig fuasent hebot ti.

5. Holl luoedd y nefoedd a garant dy wên; a dadganant dy fawl yn yr eangder diderfyn.

6. Y ddaiar, a'i llawforwyn y lloer, a ymfalchiant ynot: tydi a'u gwisgaist hwynt âg adderchawgrwydd.

7. Dy wawl a ddisgleiria ar risial-rew y gogledd-bwynt: a'i wrthdoriad a ffurfia y goleuni gogleddol.

8. Dy belydrau bywioglawn a dreiddiant frû y ddaiar: yr hon a feichioga yn y gwanwyn, a gynydda yn yr haf, ac a esgor yn y cynhauaf ar ydau a ffrwythau yn lluniaeth i ddyn.

9. Tydi yw tad y glaswellt, y blodeu, y brysgwydd, a'r tew-lwyni; oblegid ni fuasai na blodeuyn, glaswelltyn, deilen, na choeden hebot ti.

10. Gwag, di-lun, ac anferth fuasai yr holl ddaiar, heb un creadur byw i urddo ei gwyneb.

11. Dynion, anifeiliaid, ymlusgiaid, ehediaid, ac ednogiaid, a ymhyfrydant yn dy bur oleuni: a'r holl ddaiar a ymlawenycha yn ngwresowgrwydd dy serch tuag ati.

12. Gwenaist arni yn y crêad: gwenu yr wyt yn awr: a gwenu wnei beunydd a byth.

13. Pan fo fflam-fellt yn gwibio o'r gwgus gymylau, a'r daran ddychrynfawr yn rhwygo 'r awyrlen, ni 'th frawychir di.

14. Pan fo'r dymhestl yn croch-chwiban yn y llwyni, gan ysgythru coedydd mawrion, a'r eigion mawreddus yn croch ruaw gan ewynu a chynddeiriogi yn ddychrynadwy, digynwrf a thangnefeddus fyddi di.

15. Pan fo daiargryn yn siglo y ddaiar hyd at ei seiliau, er dychryn a thrallod i feibion dynion, ni'th syflir di o dy orsedd awr yn entrych y nef.

16. Coroni y mynyddoedd a cheinder, a'r dyffrynoedd âg hyfrydwch: a'th wres a wregysa yr holl ddaiar oddiamgylch ogylch.

17. Y môr mawr mur-murawg a ymlona wrth gysanu dy belydrau: a gwynfrig ei lâsdon a chwardl yn ngogoniant dy wên.

18. Rheolwr yr hinsoddau, a llywiawdwr y tymhorau: pa ryfedd i ddynion anmherffaith dy addoli: oblegid tydi wyt brif gynrychiolydd gogoniant dy Greawdwr.

19. Pan ddeui allan o ystafelloedd y wawr; bydd y dwyrain yn gwrido i dy lon roesawu: a holl anian yn prysuro i dalu teyrnged i'w theyrn.

20. Gwisgi y cymylau a ridens arian; a hwythau a ymlawenychant ynot, ac a addurnant edyn y wawr.

21. Côr asgellog y llwyni a gydleisiant i dy resawu di; llafarsain a blasbêr eu cân yn ngwynfydrwydd eu nwyfiant.

22. Y blodion per-sawrus ymagorant i gofleidio dy belydrau, ac i dderbyn bywyd a bendith o dy wên.

23. Dy belydrau a leibiant y gwlith oddiar y blodion a'r glaswellt; a'th wres a fywioga irdwf gwyrddlas y ddaiar.

24. Y tarth sydd yn hulio 'r dyffrynoedd, a'r niwl sydd yn gordoi y ceu-nentydd, a giliant o dy wyddfod, ac a ddiflanant fel breuddwyd blingwsg.

25. Dy wres a gynydda ac a addfeda ymborth i ddyn ac anifail, a phob creadur byw.

26. Dy belydrau a dreiddiant y grawnwin, o'r hwn y gwneir gwin i lawenychu calon dyn.

27. Ardderchocaf o weision Ior: y nefoedd a'r ddaiar a ymhyfrydant ynot.

28. Hebot ti buasai tywyllwch yn gordoi y bydysawd; a'r ddaiar yn weddw-amddifad o fywyd, harddwychedd, a godidawgrwydd.

29. Buasai nifwl, tywyllwch, a dystawrwydd yn teyrnasu; ac ni chlywsid cân nac addoliant mewn un man.

30. Diymanerch, diymadferth, a difywyd fuasai pob peth; arswydus yw meddwl am dy ddifodoliad di.

31. O! ardderchocaf o weision Duw Ior; can croesaw i dy wyneb ysblenydd, cnaid, a bywyd byd.

32. Cenhedlocdd a ddeuant ac a ymadawant; ond tydi a weini i'r Arglwydd o genhedlaeth hyd genhedlaeth byth!

33. Ieuange a godidog yn dy henaint; nid ocs na methiantwch na musgrellni i ruddias dy ogoneddusrawd yn entrych nefoedd.

34. "Ar Air" yn y greadigaeth, cyrhaeddaist dy lawn-dwf, dy ddysgleirdeb, a'th ogoniant: ac ni leiheir mo'nynt yn dragywydd.

35. Pan gyrhaeddi byrth y gorllewin, mil myrdd o gymylau rhudd-wridog amdyrant o'th amgylch i addoli dy wedd; harddach yw dy fachludiad na'th gyfodiad.

36. Pa arlunydd all ddarlunio gogoniant dy fachludiad? Pa ddoethawr neu ddewin ellí ddesgrifiaw ysblender dy wên?

37. Diflin a diorphwys yw dy daith; pan fyddom ni yn cysgu yn dawel, byddi di yn tywynu ar ein gwrth ddaiarolion gan eu cynysgaeddu a dyfal fendith dy wawl.

38. Hael a thrugarog ydwyt hefyd fel dy Luniwr; oblegid yr wyt yn tywynu ar y doeth a'r annoeth, y call a'r ffôl, y cyfiawn a'r anghyfiawn.

39. Ufuddaf a thecaf o weision y Tad mawr cyffredinol; tydi wyt arwyddlun o'i fawredd, ei haelioni, ei drugaredd, ei Dadoldeb, a'i fendith.

40. Henffych ardderchog Nâf y ffurfafen; mi a'th glodforaf tra byddo "bywyd yn fy ngwaed, ac anadl yn fy ffroenau."

### Yr Awen wedi deffro.

(*Codiad yr Haul.*)

1. Haul gwych, enaid y gwawl,
Mil a myrdd a ganant dy fawl,
O'r dwyrain doi yn deyrn o fri,
A gwyllt a gwâr a'th garant di:
Cain Bor! plenydd a sêr,
Seirian lu, addefant eu Ner;
Glyw, glew, gloyw, a glân,
Môr a thir, yr awyr a thân,
Anian chwardd yn ngwên dy wawr—
Ysblenydd wyt, O! nefol gawr.

2 Mawr fod hynod a hardd,
Mae dy wên fel awen y bardd,
Yn rhoi syniadau pêr i'r byd,
A gogoneddus yw dy bryd:
Llon wyt, frenin y dydd,
Yn y nef yn rhodio yn rhydd,
Ar dy daith ëang a maith,
Diflin a thragwyddol dy waith:
Anian chwardd yn ngwen dy wawr—
Ysblenydd wyt, O! nefol gawr.

Talhaiarn.

---

## GARDDWRIAETH Y BWTHYN.

(Parhad o Tudal. 20.)

16. Y mae fforch yn llawer gwell na phâl at dir newydd neu hen. Gwna dyn y cymmaint arall o waith a hi ag a wna a phâl, ac a'i gwna yn llawer gwell, yn enwedig os bydd y tir yn galed a charegog. Gyrir y fforch gyda chryn rwyddineb trwy dir ag a fyddo yn rhy galed, neu yn rhy gerigog i'r bâl fyned trwy ei grofen. Bydd yn burion fod genych bâl neu raw wrth law i garthu gwaelod y rhych.

17. Y driniaeth a dala ei ffordd oreu yn y pen draw yw y dwfn-baliad a elilw y Sais *trenching*. Torwch ffos ddwy fodfedd o led, a throedfedd a haner, neu ddwy droedfedd o ddyfnder, y naill ben i'ch darn tir; symudwch bridd y ffos hono i'r pen arall o'r tir. Wedi hyny torwch gyfled a hyny o dywarchen, a dodwch â'i hwyneb i waered yn y gwter; yna fforchiwch neu ceibiwch y pridd i'r un dyfnder a'ch ffos gyntaf, a theflwch y pridd hwnw ar gefn y dywarchen. Gwnewch hyn â llain ar ol

llain, nes cyrhaedd y pen arall, lle y cewch bridd eich cwter gyntaf i lanw yr olaf. Pe byddai genych ddail coed neu hen wellt-rhedyn, &c., i ddodi y'ngwaelod eich ffosydd, goreu i gyd. Wrth gwrs, os bydd cerig yn eich tir byddwch yn eu codi a'u taflu i'r wyneb, er eu cludo ymaith, at gyweirio eich cloddiau, y tŷ bach, twlc y mochyn, neu ryw ddyben cyffelyb. Peidiwch a'u dibrisio. Ceisiwch droi pob peth at ryw ddyben da. Ni chreodd Duw ddim yn ofer.

18. Os digwydd fod y tir yn gorsawg neu wlyb, rhaid tori cwteri at ei sychu. Gwnewch hwy yn ddigon dwfn fel y galloch gael troedfedd neu bymtheg modfedd o gerig man yn y gwaelod, tywarchen dda ar y cerig, a dwy droedfedd o bridd ar hyny.

19. Gwedi i chwi fyned dros eich dernyn tir yn ol y cyfarwyddiadau uchod, gellwch, yn y tymhor priodol, gymeryd eich rhaw i agor rhychiau, neu y fforch a'r rhaca er ffurfio gwelyau at hadau mân ynddo; ac os na fydd y ddaear yn wael iawn, byddwch yn sier, dan fendith y Nef, o gael cnwd da; llawer gwell yn y *long run* nag a gawsech wrth ei fetingo a'u losgi. Ceir cnwd da ddigon y flwyddyn gyntaf yn y lludw llosg, ond y mae yn tlodi y tir erbyn blynyddoedd dyfodol.

Os bernwch yn addas galchu eich tir, peri effeithiau da y calch am flynyddau. Y mae calchio y gerddi allan o'r ffasiwn y'mhlith y mawrion, er hyny, anturiaf ddywedyd yn hŷ wrth fy nghydweithiwr, dyro ychydig gartau o galch i'th ardd yn achlysurol, ac ni bydd edifar genyt.

20. Nid yw mor angenrheidiol *trenchio* hen dir, ond gofalwch balu neu fforchio hwn i'r un dyfnder, sef, o ddeunaw modfedd i ddwy droedfedd, gan daflu pridd y wyneb i'r gwaelod, a chodi pridd y gwaelod i'r wyneb. Bydd i chwi wrth wneyd felly am ychydig flynyddoedd olynol wella pridd eich gardd i raddau pell iawn.

21. Arfer ffol, golledus iawn, sydd gan lawer yw taflu yr holl chwyn, y gwrysg cloron, pŷs, ffa, bonau bresych, a'r cyffelyb allan dros y berth i'r heol, neu i ryw bwll neu lwyn anial cyfagos, tra y byddant, efallai, yn talu coron neu chweigain am wrtaith i'r ardd. Na wnewch felly er dim, ond bydded genych bwll neu gongl yn eich gardd at daflu iddo bob dalen, pob gwrysgen, a phob llysieuyn gweddill, y chwyn a'r cwbl, i bydru erbyn y gwanwyn dyfodol, a bydd yn wrtaith da. Byddai yn burion i chwi daflu ambell ddyrnaid o halen iddo.

Os byddwch yn tewychu mochyn, teflwch bob math o wrysg, chwyn, a llysiau gweddilledig, neu wrthodedig, i'w fuarth ef. Bwyty beth, a sarna y gweddill dan draed. Os gellwch gael ambell faich o wellt neu redyn i'w taflu dano, goreu pa fwyaf, oblegid, fel y mae maen yr athronydd yn troi pob peth yn aur, trŷ y mochyn bob peth yn wrtaith, ac y mae hwnw yn werth aur i'r garddwr a'r amaethwr. Na fydded i un perchen gardd, ychwaith, oddef i ddyferyn o leisw, dwfr golchi, na dim o'r cyffelyb fyned i golli—rhodder y cwbl i'r ardd. Y mae trwyth sebon, &c., yn dda iawn i'w arllwys rhwng y rhesi bresych, rhwnllys *(rhubarb)*, &c. Byddwch ofalus o gynhwysiad y 'tŷ bach'; cymysgwch bridd sych, neu flawd llif mân ag ef; y blaenaf yw y goreu. Y mae dodi calch arno yn dinystrio ei briodoleddau ewrteithiol. Gall y sawl fyddo yn byw yn ymyl yr heol fawr ychwanegu at eu tomen dail wrth garthu tomenau y ceffylau fyddont yn myned heibio. Peidiwch gadael i'r haul gymeryd i fyny ırder eich tomen dail trwy fygdarthiad. Er atal hyny, teflwch drosti yn awr ac eilwaith, haenen o bridd sych. Purion beth mewn gardd yw hen faril olew *(oil cask)* wedi ei chladdu yn y ddaear nes byddo ei hymyl yn gydwastad âg wyneb y tir, i dderbyn biswail y mochyn (a'r fuwch hefyd lle byddo un), fel y galler oddiyno ei gludo, gyda gwlybwr brwnt arall, er ei daflu dros yr ardd. Gofalwch beidio ei gymhwyso yn rhy gryf at blanhigion gweiniaid, rhag eu lladd.

22. Pe dygwyddai fod genych fwy o wrtaith nag a fyddo yn eisiau arnoch, peidiwch, oblegid hyny, a gwastraffu dim. Ni byddai allan o le i chwi werthu gwerth ychydig sylltau i gymydog. Talai hyny am beth hadau i chwi. Dywedir am y Chineaid na thaflant gymmant â dysglaid o ddwfr eilio allan i'r ffos, neu yr heol; ond y cwbl i'r ardd, neu y maes gwair, yd, neu y borfa.

23. Dadleua rhai yn gadarn dros halen fel gwrtaith. Diau fod yn dda i ddadansoddi gwreiddiau, a defnyddiau llysieuol eraill fyddont yn y tir. Dywedir hefyd ei fod yn dda i'w gymysgu â chalch. Cefais ef yn wasanaethgar i ladd abwydon a phryfed yn y tir ac yn y domen. Un anwyl yw i ddifa malwod. Gochelwch ei hau ar, neu yn agos iawn i unrhyw lysiau, onide, lladda hwynt. Y mae yn dra gwahanol i galch yn yr ystyr hyny.

23. Y mae clai wedi ei losgi yn dda i dir ysgafn. I dir trymaidd cleiog, da fyddai ambell gertaid o fawn lle y gellir ei gael. Os byddwch yn agos i goedwig o dderw, casglwch y dail, a dodwch mewn pwll i dwymno, a gwnant wely poeth rhagorol at godi Mer-lysiau (*Vegetable Marrow*) a phompionau, &c.

24. Y mae y cyffredin dipyn yn gamsyniol am y modd goreu i gymhwyso tail at y gwahanol lysiau a gwreiddiau yn yr ardd. Y dull cyffredin yw, planu pob peth yn y tail. Y canlyniad yw fod gwreiddiau yr egin yn gorfod treiddio trwydddo i'r pridd odditanodd, neu yn yr ymyl, oblegid rhaid i'r gwrtaith gael ei ddadansoddi (*decompose*) cyn y gallo y llysiau ymborthi arno. O ganlyniad gwell yw dodi y gwrtaith yn y tir yn yr hydref, neu y gauaf; ond gan y dywedaf ychwaneg ar y pen hwn wrth draethu ar y ffordd i godi gwahanol lysiau, âf y'mlaen i roddi rhai awgrymiadau am y gwahanol rywiau—y pryd a'r modd i'w hau, eu dodi a'u tynu, &c., ac fe allai ambell air wrth fyned heibio ar eu defnyddioldeb.

---

## HURIAU.

Telir uwch huriau i rai gweithwyr na 'u gilydd, i oriorydd fwy nac i aradwr, ac i saer a gof fwy nac i labrwr; er hyny nid yw yr oriorydd yn gweithio yn galetach na'r aradwr, na'r saer yn galetach na'r labrwr.

Felly hefyd y mae gydâ gwaith y meddwl yn gystal a gwaith y corph. Er i fod clerc mewn banc yn gweithio mor galed â chyfreithiwr neu feddyg, nid yw yn cael cystal tâl.

Chwi welwch gan hyny nad ymddibyna huriau gynmaint ar galedrwydd gwaith ag a wna ar ei werth. Yn nesaf, beth sydd yn gwneuthur gwaith yn werthfawr.

Yr un egwyddor sydd yn rheoli gwerth gwaith ag sydd yn rheoli gwerth nwyfau. Mae pob gwaith yn fwy neu yn llai o werth yn ol yr amlder o hono, neu yr anhawsdra i'w gael. Pe na fyddai mwy o draul o ran amser a llafur i gael pownd o aur na phownd o haiarn, ni fyddai un yn fwy o werth na'r llall.

Ond pa fodd y mae llai o feddygon nac o seiri, neu o orioryddion nac aradwyr? Mewn geiriau eraill, paham y mae yn anhawddach dwyn dyn i fyny yn feddyg nac yn saer neu yn aradwr?

Yr unig reswm yw fod yr addysg sy'n ofynol i wneyd dyn yn feddyg yn fwy costfawr na'r un sydd yn ofynol i wneyd saer neu aradwr. Rhaid treulio amser maith i ddysgu bod yn feddyg cyn y byddo yn addas i'w alwedigaeth, ac os nad oes genych ddigon o fodd i'ch cynal dros yr amser y byddoch yn dysgu yr alwedigaeth, ac i dalu am eich dysg, nis gallwch fod yn feddyg. Ni fyddai tad mor ffol a myned i'r draul o ddysgu ei fab yn feddyg, hyd yn nod pe fyddai ganddo fodd, oni ddysgwyliai i'r bachgen enill mwy na saer, addysg yr hwn nid yw mor gostfawr. Mae yn wir y dygwydd weithiau i dad gael ei siomi yn ei ddysgwyliad. Dichon y gall y bachgen droi allan yn hwyrdrwm ei ddeall, neu yn seguryn afradlon; os felly, bydd yn rhy anfedrus i lwyddo yn ei alwedigaeth, ac y mae y draul i'w ddysgu wedi myned yn ofer. Am fod addysg meddyg yn fwy costfawr nac addysg saer, mae meddygon yn anamlach na seiri, a hyn ydyw'r achos fod meddyg yn cael mwy o dâl am osod coes dyn, nac a gaiff saer am osod coes bwrdd neu gadair. Yr achos yw prinder un yn fwy na'r llall. Pe byddai cymmaint o feddygon ag sydd o seiri, ni chai un ddim mwy o dâl na'r llall. Am hyny mae gwaith pob dyn yn uwch neu yn iselach ei bris yn ol amlder neu anamlder y

gweithwyr, ac y mae amlder neu anamlder y gweithwyr yn ymddibynu yn gyffredin ar y draul i'w dysgu.

Gwir yw fod athrylith, neu y peth a eilw y Sais, *natural genius*, yn cael weithiau yr un effaith â thraul addysg i beri i un dyn gael gwell tâl na'r llall. Os bydd dyn yn meddu athrylith i dynu lluniau, ac wedi dysgu celfyddyd y luniedydd o'i ben ei hunan, heb i'w addysg gosti iddo swllt erioed; os bydd yn luniedydd da, efe a enilla lawer mwy na phaentiwr cyffredin a fyddo wedi treulio amser hir ar ei brentisiaeth. Ond mewn gwirionedd, yr un peth yw'r achos fod dyn o athrylith, nad yw wedi talu dim am ei ddysg, yn cael gwell tâl am ei waith nac un arall a fyddo wedi talu llawer, hyd yn nod, efallai, o'r un alwad. Anaml yw dyniou o athrylith, am hyny mae eu gwaith mor brisfawr, yn fwy prisfawr o bosibl na gwaith llawer a fyddo wedi gwario arian mawr ar eu dysg a'u medrusrwydd. Ond chwi welwch nad yw hyn yn groes i'r egwyddor gyffredin, sef mai prinder pob gwaith sydd yn ei wneuthur yn ddrud.

Hefyd, mae rhai math o weithiau yn ddrud, nid yn gymmaint o herwydd anamlder y gweithwyr, neu unrhyw athrylith neillduol sy'n ofynol at y gwaith. Y cyfryw yw gweithiau afiachus neu beryglus, neu annymunol. Am hyny rhaid talu mwy am eu gwneuthur, onite ni cheid neb i'w cyflawni. O'r fath yw gwaith mwynwyr, gweithwyr copr, a phowdr gŵn, ac eraill allem enwi. Mae gweithwyr o'r fath yn cael mwy o huriau. Ond mewn gwirionedd, anamlder y gweithwyr eto yw'r achos o uwch huriau, oblegid ychydig mewn cydmariaeth sy'n dewis gwneyd y gwaith. Meddylia rhai mai peth anghyfiawn yw i un dyn gael mwy o dâl nac un arall fyddo yn gweithio yn llawn mor galed, ac efallai yn llawer mwy caled. Felly y byddai, yn wir, pe byddai yn beth cyfiawn i un dyn draws arglwyddiaethu ar ei gyd ddyn fel ag i beri iddo weithio drosto am unrhyw hur a ddewisai roddi iddo. Yna ni fyddai yn iawn i roddi mwy o dâl i un am ei waith nac i arall, bydded ei gelfyddyd beth a fo. Dyma gyllwr slafiaid, y rhai a orfyddant weithio dros eu harglwyddi am eu hymborth a'u gwisg, gan nad beth fyddo eu galwad a'u medrusrwydd—saer, gof, cogydd, crydd, aradwr, neu gloddiwr. Cant oll yr un tâl—eu bwyd a'u dillad, a hyny yn ddigon prin yn fynych

Peth iawn yw gadael prynwyr a gwerthwyr at eu rhyddid, un i geisio y pris a fyddo yn ddewis, a'r llall i gynyg beth feddylia yw y nwyf o werth. Nid yw gweithiwr, beth bynag fyddo ei alwedigaeth, ond gwerthwr ei amser, ei rym, a'i fedrusrwydd. Eu prynwr yw yr hwn sydd yn eu hurio—prynwr gwaith. Gwell er lles y wlad yw gadael iddynt fargena ac i gytuno fel y gallont.

Os yw ffermwr yn dewis ceisio pris uchel am ei wenith, ei ychain, a'i ddefaid,—mwy na phris y farchnad, mae at ei ryddid i wneyd hyny, ac y mae y prynwr at ei ryddid, o'r ochr arall, i roddi iddo ei bris neu i beidio, fel y byddo yn dewis. Ni fyddai dim yn fwy niweidiol na chyfraith i reoleiddio prisoedd, hyny yw, cyfraith yn penderfynu pris pob nwyf.

Gwnawd cyfreithiau lawer gwaith yn y wlad hon yn yr hen amser i benderfynu huriau gweithwyr. Byddai dyn yn agored i gosp os y gofynai neu y rhoddai ragor o bris am waith na'r hyn a ganiatai y gyfraith; ond yr oedd cyfreithiau o'r fath hyn yn gwneuthur llawer o niwed, oblegid os byddai yr huriau cyfreithlon yn fwy nac a dalai i'r ffermwr roddi, i amddiffyn ei hunan, talai ymaith y rhan fwyaf o'i weithwyr, gan gadw yn unig ond ychydig o'r rhai goreu. Y canlyniad oedd fod llai o dir yn cael ei wrteithio, a llawer o weithwyr allan

o waith a fuasai yn dda ganddynt, yn lle enill dim, i weithio am lai o hur nac a osodid i lawr yn y gyfraith. O'r tu arall, pan fyddai yr huriau cyfreithlon mor isel fel y gallasai ffermwr dalu mwy i'r gweithwyr goreu, ymdrechai gael y rhai hyny i'w wasanaeth trwy roddi rhagor o hur iddynt yn ddirgel. Gallasai wneuthur hyn yn rhwydd heb fyned i afael y gyfraith, trwy werthu iddynt wenith, ymenyn, neu gaws, am lai o bris na'i werth yn y farchnad. Y canlyniad oedd y gorfyddai meistri eraill wneyd yr un peth, onide hwy gollent eu gweithwyr goreu. O dipyn i beth daeth y Senedd i weled y ffolineb a'r niwed o'r fath gyfreithiau ffol, ac mai y peth goreu fyddai gadael y gweithiwr a'r huriwr i gytuno â'u gilydd fel y gallent.

Terfynwn y tro hwn gyda sylwi fod gweithwyr yn fynych yn dyoddef caledi mawr, a hyny lawer gwaith yn ddiachos, ac oddiwrth yr hwn y gallent waredu eu hunain pe byddent mor gall ac ystyriol âg edrych y'mlaen dipyn y'mhellach na'r diwrnod presenol. Y canlyniad yw eu bod yn beio ar y llywodraeth, neu'r meistri, am na roddant ragor o hur, pan mewn gwirionedd mai arnynt hwy eu hunain mae'r bai. Pan fyddo dyn yn gwario y cyfan o'i enill, a hyny nid yn anfynych ar oferedd ac annghymedroldeb, pan y dylai osod o'r neilldu ran o hono bob wythnos erbyn caledi pan fyddo gwaith yn brin, neu'r huriau yn fach, neu fe ddichon, bŵl o afiechyd yn ei oddiweddyd, beth all ddysgwyl ond caledi? Nid iawn yw iddo feio ar eraill am hyn pan mai ei annarbodaeth ef ei hun yw'r gwir achos. Nid drwg fyddai i'r fath gofio y ddammeg ganlynol:—

"Ar ddynesiad y gauaf, daeth ceiliog y rhedyn, y'mron llewygu gan newyn, ac y'mron sythu gan anwyd, at lestr gwenyn yn llawn mêl, ac a geisiodd yn ostyngedig gan y gwenyn dori ei newyn âg ychydig o'u mêl. Gofynodd y gwenyn iddo sut y treuliodd yr haf; a phaham na osododd heibio ystor fel hwythau, erbyn y gauaf? 'Yn wir,' oedd yr ateb, 'mi dreuliais yr haf yn llawen, gan yfed, dawnsio, a chanu, heb feddwl dim am y gauaf.' 'Nid dyma ein harfer ni,' ebai'r gwenyn; 'yr ydym ni yn ymroi yn galed yn yr haf i ystorio bwyd erbyn y gauaf pan fyddom yn methu gweithio. Beth sydd i ddysgwyl gan y sawl a dreuliant yr haf yn yfed, dawnsio, a chanu, ond newyn? Cerdd i'th ffordd, yr oferyn ffol.'"

## TYSTIOLAETH GWEINIDOG UNDODAIDD O BLAID YR EGLWYS SEFYDLEDIG.

Syr,

Mae yn hysbys i chwi, mi wn, i'r Parch. Mr. Green, Gweinidog yr Undodiaid yn Knutsford, wrthod cydsynio â gwahoddiad a ddanfonwyd iddo i ddyfod i gynnadled y Gymdeithas Ryddhaol a gynhaliwyd yn ddiweddar ym Manchester, ac fel rheswm, iddo ddyweyd yn ei lythyr i'r gynnadledd "ei fod ef yn meddu cymmaint o ryddid crefyddol ag sydd yn eisiau arno, ac nad yw yn dewis gwyro i unrhyw ddybenion eraill, na chrefyddol nac elusenol, waddoliaethau ac iawnderau ei frodyr yn yr Eglwys Sefydledig." Mae Mr. Green yn anghofio mai i ymdrechion cyffelyb i'r rhai a wneir gan y Gymdeithas Ryddhaol mae efe ac eraill yn ddyledus am gymmaint o ryddid crefyddol ag a fedda. Ond pa fodd bynag, ymddengys fod Mr. Green yn awr mewn parch

anghyffredin gan yr Eglwyswyr am ei lythyr, ac yma, yn Nghaerfyrddin, yr ydys wedi ei gyfieithu i'r Gymraeg. Hereticiaid yn gyffredin yn eu golwg yw'r Undodiaid, neu fel y dewisant eu galw, "Sosiniaid," a defaid duon, ond yn awr mae yn debyg fod un llwdn gwyn yn eu plith—Mr. Green o Knutsford. Yn wir, mae wedi myned yn dlawd iawn ar yr Eglwys Sefydfedig ei bod yn gwneyd cymmaint o farn un sydd braidd yn unigol yn y peth hwn yn yr enwad Undodaidd. *A drowning man*, medd y Sais, *grasps even a straw*; hyny yw, mae dyn ar foddi yn gafaelu hyd yn nod mewn gwelltyn. Gallaf ddyweyd fod yr Undodiaid fel corph yn anghymeradwyo yr Eglwys fel Sefydliad gwladol, ac nid oes neb wedi gwneyd mwy na hwy tros ryddid crefyddol, ac i wrthsefyll honiadau rhyfygus yr Eglwys uchafol. Ni fyddai ond teg yn y sawl a gyfieithasant lythyr Mr. Green yn y dref hon gyhoeddi hefyd yn Gymraeg y sylwadau pwrpasol a wnaethpwyd arno gan olygyddion yr *Unitarian Herald* yn yr un rhifyn â'r llythyr, yn y rhai y dynoethant wendid resymau Mr. Green; neu paham na chyhoeddent yn Gymraeg araith amddiffynol Mr. Voysey, neu y llythyr yr wythnos hon yn yr *Unitarian Herald* gan offeiriad Sefydledig yn yr hwn yr ochneidia am ryddhâd o lyffetheiriau ei Eglwys? O na, ni fyddai hyn yn taro eu pwrpas. Ond y gwir yw, er cymmaint a wneir yn awr i ddal i fyny yr Eglwys fel Sefydliad gwladol, ac i *galvaniso* bywyd newydd ynddi, nid oes eisiau prophwyd i ragweled fod ei dyddiau wedi eu rhifo, ac nad yw y dadgysylltiad ond yn unig cwestiwn o amser. Mae Eglwys Sefydledig yr Iwerddon wedi ei rhyddhau o gadwynau y Stad, ac yn awr yn dechreu cripian ar ei choesau ei hunan heb orphwys ar ffyn baglau, a gall cyfeillion ei chwaer yng Nghymru a Lloegr fod yn sicr na fyddir yn hir cyn gwneuthur yr un gymwynas â hithau. Gweddillion hen oesoedd tywyll y byd yw Eglwysi Sefydledig. Yn awr mae cynydd gwybodaethau o bob math y'mhlith y bobl wedi eu dysgu i weled nad oes dim o'u heisiau, ac mai gwell i achos crefydd ac i'r byd yn gyffredin yw bod hebddynt, a gadael i bob enwad gynal ei achos ei hun. Mae rhesymau Mr. Green yn rhy ridyllog i ddal dwr, ac, o'm rhan i, mae i'r Eglwys Sefydledig gan groesaw i'w mabwysiadu, os ydynt yn taro ei phwrpas yn ei gwewyr.

Ap Ieuan.

## CWRDD CWARTEROL Y NADOLIG.

Yn unol â'r hysbysiad a ymddangosodd ar amlen yr Ymofynydd am fis Rhagfyr diweddaf, cynhaliwyd y cwrdd uchod yn y Cwmbach ar yr 28ain a'r 29ain o'r un mis.

Yr oedd yr hin yn lled oer, ac oblegid hyn, cafodd rhai ag oeddynt wedi bwriadu bod yn bresenol eu lluddias i fod; ond ag ystyried yr amser o'r flwyddyn yr oedd y tywydd yn dymhorol iawn.

Dechreuwyd y cwrdd nos Fercher am 7 o'r gloch gan Mr. Thomas Jones, Myfyriwr, ac yna traddodwyd dwy bregeth adeiladol, y naill gan y Parch. Rees Jones, Cribyn, a'r llall gan y Parch. John Evans, Gellionen.

Dechreuwyd bore dydd Iau am haner awr wedi 10 o'r gloch, pryd yr

arweiniwyd y gwasanaeth crefyddol gan y Parch. J. Evans, a phregethodd y Parch. William Thomas, A.C., Llwynrhydowen a Bwlchyfadfa, *y bregeth*, fel ei gelwir, oddiar Luc ii. 7.—"A hi a esgorodd ar ei mab cyntafanedig, ac a'i rhwymodd ef mewn cadachau, ac a'i dododd ef yn y preseb; am nad oedd iddynt le yn y lletty."

Triniodd Mr. Thomas ei bwnc yn dra meistrolgar, a chafodd wrandawiad astud, ac er na roddodd foddlonrwydd hollol i rai o'i wrandawyr, eto i gyd nis gallasai un dyn goleuedig ac ymofyngar lai na siarad yn uchel am ei ddidwylledd, ei onestrwydd, a'i hyawdledd anffurfiol. Yr ydym ni fel Undodiaid wedi hen arfer bellach i gytuno i anghytuno, a hyny am y credwn fod gan bob dyn berffaith hawl a rhyddid i farnu drosto ei hunan, ac y dylai draethu ei syniadau yn oleu heb ofalu am wg na gwen neb pwy bynag ond cydwybod, ac am y credwn mai i'w Arglwydd ei hun y mae pob dyn yn sefyll neu yn syrthio, ac oblegid hyny yr ydym yn anog dynion i farnu drostynt eu hunain, a'n gobaith ni yw na ddaw yr adeg hono ar ein gwarthaf pryd y bydd yr arferiad yma wedi dyfod yn llythyren farw.

Wedi i Mr. Thomas eistedd i lawr, a chwedi i'r cadeirydd gyflawni y gorchwyl arferol ar amgylchiad o'r fath, sef rhoddi cyfle a chymhelliad i'r gwrandawyr i wneyd sylwadau beirniadol ar y bregeth, yr hyn ni wnawd gan neb, awd yn mlaen i siarad ar y pwnc penodedig, sef "*Dyben Gweddi.*" Llefarwyd arno yn bur helaeth a phwrpasol gan y Parchedigion T. Thomas, W. Thomas, W. Rees, J. Joseph George (yn Seisneg), a I. T. Williams, Cefn.

Dygwyd y cyfarfod i derfyniad trwy ganu mawl, a gweddi gan y Parch. T. Thomas.

Wedi gwneyd cyfiawnder â'r giniaw oedd wedi ei pharotoi ar gyfer y gweinidogion ac eraill yn y "Farmer's Arms," dychwelwyd i'r capel, pryd y darllenwyd rhan o'r gyfrol sanctaidd, y gweddiwyd ac y traddodwyd pregeth, rhy fyr medd rhai, gan y Parch. John Davies, Alltyblacca.

Cafwyd cyfarfod hwylus arall yn yr hwyr, yr hwn a ddechreuwyd am haner awr wedi 6 o'r gloch gan y Parch. W. Thomas, a phregethodd y Parchedigion W. Rees a T. Thomas.

Yr oedd y cynulliadau oll yn lluosog iawn, a'r gwrandawiad trwy yr oll o'r cyfarfodydd, hyd y gwyddom ni, yr hyn ag y dymunai pob dyn sydd yn wresog yn yr yspryd yn gwasanaethu yr Arglwydd, iddynt fod.

Ein dymuniad ni yw fod ein Cwrdd Cwarterol wedi gadael argraph dda ar ei ol ar y gwrandawyr a'r llefarwyr.

Cwrdd y Pasc sydd i gael ei gynal yn y Ciliau, a'r un pwnc fydd dan sylw yno ag a fu yn y Cwmbach.

L.

## Y RHYFEL.

Nid oes genym nemawr i ddyweyd yn newydd yn ei gylch. Mae yn myned y'mlaen o hyd heb nemawr o gyfnewidiad yn y sefyllfa—brwydrau yn cymeryd lle yma a thraw, trefydd yn cael ei bombardio, pentrefydd yn cael eu llosgi â *phetroleum*, tai anedd yn cael eu llosgi a'u ysbeilio, a hen bobl, gwragedd a phlant yn cael eu sacthu gan *Vandaliaid* gwareiddgar Prwsia. Y gwir yw, mae'r Prwsiaid yn awr yn ymladd, nid tros undeb yr Allmaen, ond i ddwyn taleithiau Ffrainc, ac

os gallant, i'w thori i fyny fel pwer yn Ewrop, ac y mae'r Ffrancod o honynt hwythau yn ymladd i gadw eu gwlad, a thros fywydau eu hunain, a'r sawl sydd anwylaf ganddynt, o ganlyniad mae cydymdeimlad holl Ewrop yn awr o'u hochr, ac y mae cydwybod gyhoeddus dynolryw yn ffieiddio ymddygiad brenin Prwsia a'i offeryn cyfrwys a dibetrus, Bismark. Mae son yr wythnos hon fod Paris yn cynyg rhoddi i fyny ar ammodau, y rhai a wrthodir gan y brenin, yr hwn sydd yn awr wedi cael ei wneyd yn Ymerawdwr yr Allmaen—anrhydedd mae Prwsia wedi gyrhaeddyd trwy afonydd o waed. Beth sy ffaith y'nghylch Paris, ni wyddus eto yn iawn, ond mae yn debyg y bydd yn rhaid iddi ymostwng cyn bo hir, nid i fagnelau y gelyn oddiallan, ond i'r un oddifewn, sef newyn. Nid yw yn canlyn er hyny, pan y gorfydd ar Paris i ymostwng, y bydd y rhyfel trosodd. Mae'r Ffrancod mor benderfynol yn awr i gario y rhyfel yn y blaen, nes ymlid y gelyn o'u gwlad, ag oeddynt ys mis yn ol. Mae yn wir eu bod wedi cael eu gorthrechu mewn amryw frwydrau, ac nid yw ryfedd, oblegid chwech mis yn ol gwladwyr oedd eu byddinoedd presenol, heb handlo *rifle* erioed. Ond y maent yn dysgu rhyfela, ac yn dyfod bob wythnos yn fwy gwrol i wynebu maes y gwaed. Ni ryfeddem ni fawr eto, na orfydd ar y Prwsiaid ffoi o Ffrainc, oblegid mae eu hamser goreu hwy yn y rhyfel hwn wedi pasio, ac y maent y'mhell o'u gwlad, yr hon sydd wedi ei llymhau o oreuon ei phobl, ac o filiwnau o'i meddianau. Mae y Ffrancod o'r ochr arall gartref; cryfhau wnant bob mis mewn milwyr; nid ydynt wedi eu llymhau eto o ran modd i gario y'mlaen y rhyfel, ac y mae cydymdeimlad y byd o'u hochr. Rhaid i Prwsia gadw can mil o'i milwyr i warchod Paris wedi iddi ymostwng, a haner can mil o leiaf i ofalu am y carcharorion ac i gadw meddiant o'r trefydd mae wedi gymeryd. Bydd hyn yn faich trwm y'nghyd a chynal y byddinoedd ar y maes. Wedi i Paris gwympo, ni fydd Bismark fawr ar ei enill. P'un hwyaf y caria y Ffrancod y rhyfel yn y blaen, mwyaf i gyd fydd eu mantais gyda golwg ar delerau heddwch. Maent yn foddlon gwneuthur heddwch ar ammodau cyfiawn, ond mae brenin Prwsia yn gosod i lawr delerau mor afresymol nes yw yn amhosibl i Ffrainc i feddwl am heddwch nes darostwng y gelyn. Dywedir fod ymdrech mawr yn cael ei wneuthur i adferu llywodraeth y Bonapartiaid, oblegid mae ofn ar Bismark a'i feistr gael gwerin lywodraeth yn Ffrainc, rhag y bydd hyny yn anogaeth i *Republicans* Prwsia, y rhai ydys wedi eu cadw i lawr hyd yma trwy rym trais. Gwyddus nad oes fawr o gariad yn Prwsia at y brenin, yr hwn sydd yn drawsarglwydd, ac yn wastad yn barod i ollwng gwaed pan fydd hyny yn ryw fantais i'w awdurdod a'i uchelgais, a digon tebyg y bydd yn anhawddach iddo ddal i fyny ei awdurdod pan yn ymerawdwr nac oedd pan yn frenin Prwsia. Bydded yn ddiolchgar os y ca farw ar wely. Nid yw yn debyg y llwydda i osod Louis Napoleon yn ol ar orsedd Ffrainc, na'i fab ychwaith. Mae'r Ffrancod yn awr wedi gorfod talu yn rhy ddrud am ymerawdwr. Maent yn cithaf boddlon i Prwsia o hyn allan gael yr anrhydedd hyny.

Mae Trochu wedi rhoddi i fyny ei swydd fel arweinydd y fyddin yn Paris, a'r cadfridog La Ronciere le Noury wedi cymeryd ei le, yr hwn a ddywed ond iddo fe gael dewis ei *generals* y tora i fyny y gwarchae â 150,000. Os y llwydda, achosa gyfnewidiad mawr yn sefyllfa bresenol y rhyfel. Ni wyddus yn iawn beth yw safle yllfa Chanzy, Faidherbe, a Bourbaki, wedi y brwydrau diweddaf, ragor na'u bod yn parotoi bob dydd ac yn 'chwanegu pwer eu byddinoedd. Nid oes achos i Ffrainc i fyned i wan obaith hyd yn nod pan fyddo Paris wedi cwympo.

Wedi ysgrifenu yr uchod, yr ydym yn cael ar ddeall fod Paris wedi rhoddi i i fyny ar ammodau, ond pa beth a wnaiff y wlad nis gwyddom eto. Yr arf-ataliad yw tri diwrnod ar hugain, yr hwn fydd drosodd Chwefror 19.

---

## Y FLWYDDYN FU FARW.

Y flwyddyn fu farw, yr hin sydd yn oeri,
Y blodau yn gwywo, ac anian yn gwelwi,
Y ddaiar oedd gyneu fel geneth yn gwenu,
Yn awr sydd yn welw a'i gruddiau yn crychu.

Y flwyddyn fu farw, y rhyfel sy'n para,
A'r milwyr yn trengu ar faes yr ymdrechfa,
Ond llawen obeithiwn fod duwies trugaredd,
'N awr wedi dyfod i gyhoeddi tangnefedd.

Y flwyddyn fu farw, a'r byd sy'n heneiddio,
A ninau ryw adeg a gludir o hono;
Mae'n ffaith fod y flwyddyn ar ei hymadawiad
Yn raddol ddadfeilio sylfeini y crêad.

Y flwyddyn fu farw, a'r farn sydd yn nesu,
A chyfraith cyfiawnder a gaiff ei gweinyddu;
Am hyny gwnawn rodio hyd lwybrau rhinweddol
Wna'n harwain yn ddiogel i noddfa dragwyddol.

*Aberdare.* GWARNANT WILLIAMS.

## TELYN DEWI.

GYDA golwg ar benillion yr hen Ddafis, un o feirdd goreu Sir Aberteifi, cytunwn yn hollol â "3****." Mae y "Delyn" wedi myned mor anaml fel mai ychydig sydd yn awr yn feddianol arni, ac nid yw yn debyg y ceir ail-argraffiad o honi yn fuan, am hyny ni a anrhegwn ddarllenwyr yr YMOFYNYDD o fis i fis â darnau o'r "Delyn," ond, fe ddichon, nid yn gymmwys yn y drefn y maent ynddi. Os y cawn fywyd ac iechyd a rhwyddineb i gadw 'r YMOFYNYDD ar ei draed dros y ddwy flynedd nesaf, gobeithiwn y bydd y sawl a'i derbyniant yn gyson mewn meddiant, a hyny mewn gwisg newydd, o'r penillion mwyaf synwyrlawn, a rhai o honynt y mwyaf difyr, a fedd ein hiaith. Pwy ddyn ieuangc yn ymofyn gwraig na fydd yn ddiolchgar i hen Fardd ardderchog Castellhwel am y cynghorion canlynol?

### CYFARWYDDIAD I DDYN IEUANGC YN Y DEWISIAD O WRAIG.

*Mewn llythyr at Mr. T. D. o Goed-y-Cymer.*

ER mwynder tymmer, o Tomas—Davis,
Fab difyr cyweithas,
Pe cait wraig o ddraig ddi-râs,
Rhoit arni 'leni 'th 'lanas.

Gochel dro 'mgobio â gwiber—anynad;
Gwenwynai bob mwynder;
Gwnai d' oes, ar f' einioes, yn fèr:
Am hyn, ymswyn mewn amser.

Y neb rêd i briodi—oferbeth
Yn fyrbwyll heb oedi,
Dwl adyn â i d'lodi
Er cymmaint fo 'i fraint a'i fri.

Os deni Fûn sidanog—fo 'n gynnes
Ir Beunes rybanog;
F' allai doi 'n bryf llydŵog
Cyn dechreuad caniad côg.

Os dewis Davis difalch—un foddus
Na fyddo 'n uchelfalch,
I wynfyd y daw anfalch,
Ond i lawr i'r baw 'r â'r balch.

Davis! o dewis y dawel—eneth
O anian wâr isel,
Mûn bêr, nad arfer, pan dêl,
Heb achos, barab' uchel.

Un a ddilyn Dduwioledd—un ddiwair
Na ddywed anwiredd,
Un â rhàn o bob rhinwedd
A da 'i mawl, gwyn fyd a'i medd!

Un o rwydd ogwydd i agor—ei nyth
I noethion pob goror;
A thraserch i hau 'i thrysor
Yn rhydd o fynydd i fôr.

Un o dwym' galon i'r di'mgeledd—claf,
A'r clwyfus fo 'n gorwedd
Dan haint, henaint, anhunedd
A phoen blin, ar fîn ei fedd.

Un glyd f'o diwyd (nid diog—gysglyd
I gasglu i'r anghenog)
Un llaw wâr yn drugarog,
Yn y llall derbyn llôg.

Na ro'th fryd i gyd ar gael—gau elw
A golud byd oerwael;
Credu 'r wy' bydd fwy dy fael
O ddewis dynes ddiwael.

A gery aur ag arian—a mwnws
Uwch meinir fywioglan
Yn ei lle gaiff Ddylluan
Oer ei sgrech a chroes ei grân.

Gofynol gwaddol gweddus—a thylwyth
I'th alwad làn barchus;
I'r aur o na fydd, a'r ûs
O waddol, ry awyddus.

Anaml Bûn â mil o bynnau—anawdd
Iawn denu 'i serchiadau;
Mae 'n haws, a chàn gwell mwynhau
Dynes fo 'n fil ei doniau.

Nid y golud gwiwdeg welwch—na thwr,
Na thiroedd, na thegwch,
Na main drud na gemmau'n drwch
I ddynion ddwg ddiddanwch.

Ond rhannau 'nghydâ rhinwedd—iaith ddiddan,
Mwyn anian amynedd,
Careiddwch, hawddgarwch, hedd
A lonna 'r gwaela 'i annedd.

Ar lled pan bo i drallodion—gyfodi
'N gafodydd mawr trymion,
Daw 'r un waraidd lariaidd lòn
Ag eli i glwyfau 'r galon.

"*Telyn Dewi*," *tud.* 17.

---

Dyweda Beecher, gweinidog yr Annibynwyr yn America, fod llawer yn edrych ar ddydd Sul fel ysbwng i sychu ymaith bechodau yr wythnos.

Ysgymunai y Pab Innocent XII, bawb a ddefnyddient dybacco yn unrhyw ddull. Mae y Pab presenol yn smocio ac yn snuffio. P'un o'r ddau anffaeledigion sydd iawn, debygech ?

Gwir gysondeb sydd gynwysedig mewn ymdrech gwastadol i fod yn allanol y peth ydym yn fewnol, ac i fod yn fewnol y peth yr ewyllysia Duw ein bod.

Tri Chant o Bunau yn y Flwyddyn.—Gwneir ymdrech mawr yn bresenol gan y Dirprwywyr Eglwysig i godi cyflogau y tylotaf o'r Offeiriaid i dri chant yn y flwyddyn. Dichon iddynt gael eu harwain i feddwl am y swm hon gan y ddwy linell ganlynol yn Hudibras :—

What makes all doctrine plain and clear?
About three hundred pounds a year.

Amcanwn eu cymreigio fel hyn,

Beth a wna gredo yn amlwg i bob dyn?
'Deuta tri chant o bunnau yn ystod y flwyddyn.

Barn Mahomet am Ddduwdod Crist.—Yn y bumed bennod o'r Koran mae y geiriau canlynol ;—"Yn sicr, anffyddwyr yw y rhai a ddywedant—Yn wir Duw yw Crist, mab Mari, o herwydd dyweda Crist ei hun, O blant Israel, gwasanaethwch Dduw, fy Arglwydd i a'ch Arglwydd chwithau. Pwy bynag a rodda gydymaith i Dduw, Duw a'i caua allan o Baradwys, a'i drigfa fydd yn nhân uffern, ac ni chaiff yr annuwiol neb i'w gynorthwyo. Yn ddiau, anffyddwyr yw y sawl a ddywedant, y trydydd rhan o dri yw Duw, ac os na ymogelant rhag y fath honiad, mae dyoddefaint ar eu cyfer. Cynghorem hwy gan hyny i gymeryd eu perswadio a gofyn pardwn gan Dduw, oblegid mae Efe yn rasusol a thrugarog. Nid yw Crist, mab Mari, yn fwy nac Apostol." [Tebygol mai gwenu a wna Trindodwyr am y ddedfryd ofnadwy, yr hon, yn ol barn Mahomet, sydd ar eu cyfer. Edrycha yr Undodiaid ar felldithion credo Athanasius yn agos yn yr un goleu, fel heb fwy o sylfaen iddynt mewn ysgrythyr, rheswm, a hynawsedd crefyddol, nac sydd i farn Mahomet y'nghylch y sawl a ddywedant mai Duw yw Iesu Grist.]

## MARWOLAETHAU.

Tachwedd 17, yn Heol Awst, Caerfyrddin, yn 54 oed, Jane Jones, chwaer iengaf y diweddar Barchedig J. E. Jones, o Benybont, Morganwg, a hen Olygydd yr Ymofynydd. Bu farw mewn byr amser o glefyd y galon.

Tachwedd 18, Sarah, anwyl ferch James a Mari Williams, East Ferryside, Abertawe, yn 24 oed, wedi hir gystudd, yr hwn a ddyoddefodd yn amyneddgar. Claddwyd hi y Mawrth canlynol ym mynwent Llansamled. Yn y ty cyn cychwyn, darllenodd a gweddiodd y Parch. John Evans, Gellionen. Yr oedd y trancedig yn ferch i James Williams, gynt o Pyllaubryn, ger Llwynrhydowen, a Mari ei wraig, yr hon a fagwyd yn Talgrwnbach, ger Llanwnen. Bydded i addewidion yr Efengyl fod yn foddion i gysuro ei rhieni a'i pherthynasau galarus yn yr amgylchiad hwn, ac na fyddo iddynt dristau fel rhai heb obaith am ail gyfarfod eto mewn gwlad well. J.E.

[Mae yn ddrwg genym na chafodd y ddau hysbysiad uchod ymddangos yn yr Ymofynydd yn gynt. Nid arnom ni y bu yr esgeulusdod.—Gol.]

Tachwedd 21, yn 47 oed, yn Monknash, ger y Wig, Morganwg, Kate, gwraig William Lougher. Dyoddefodd gystuddd trwm am dri mis cyn ei marwolaeth, gan ymhyfrydu y'nghariad Duw. Bu yn aelod defnyddiol am 16 o flynyddau yn y gynnulleidfa Undodaidd yn y Wig. Claddwyd hi y Sabboth canlynol ym mynwent y capel y'ngwydd tyrfa fawr o bobl. Ar yr achlysur pregethodd y Parch. Titus Lloyd ar 1 Petr i. 17, sef testyn a roddwyd gan y trancedig ddau fis cyn iddi farw.

Rhagfyr 25, yn Pentrebach, ger Llangatoc, Mr. David James, yn 88 oed. Efe oedd yr hynaf yn awr o aelodau parchus Llandyfân. Os nad ydym yn camsynied, bu pan yn ieuanc yn aelod yn y Pontbren, ond yn annghytuno mewn athrawiaeth â'r gynulleidfa darfu iddo ef ac amryw eraill ymadael gan osod i fyny addoliad eu hunain yn Llandyfân. Bu Mr. James yn ddyn ddefnyddiol iawn trwy ei oes yn ei gymydogaeth. Pan fuasai eisiau cyngor mewn pethau gwladol neu eisiau ysgrifenu, ato fe yn wastad yr elai y cymydogion, er eu bod yn methu cydweled ag ef mewn pethau crefydd. Er ei fod wedi methu dod ys blynyddau i'r Onenfawr i addoli, yr oedd ei galon yn wastad yn yr achos, ac i brofi hyny, rhoddodd yn ei ewyllys ugain punt i'w gynal i fyny tra fyddo yr athrawiaeth Undodaidd yn cael ei phregethu yno. Os y dygwydd i'r Capel fyned ryw bryd i feddiant y Trindodiaid, mae'r ugain punt i fyned i'r gynulleidfa Undodaidd nesaf yn y gymydogaeth.

Rhagfyr 30, Mr. Lewelyn Jones, Full Moon, Trecynon, Aberdâr, yn 61 oed. Cafodd ei gystuddio am amser maith, a phob amser dyoddefai yn amyneddgar, a thawelwch meddwl, ac ymostyngiad i ewyllys Duw yn y brofedigaeth yr oedd dani; a phan oedd pob gobaith wedi diflanu am adferiad i'w gynefinol iechyd, daeth angeu i'w gymeryd ymaith oddiwrth ei waith at ei wobrwy. Y Llun canlynol ymgynullodd tyrfa luosog ynghyd i'w hebrwng i "dŷ ei hir gartref;" a chyn cychwyn o'r ty, cafwyd pregeth gymwysiadol ar yr amgylchiad gan y Parch. R. J. Jones, A.C., oddiwrth Heb. ii. 3. Wedi hyn, hebryngwyd y trancedig i'r Gladdfa Newydd (*Cemetery*), lle yr erys hyd ganiad yr Udgorn diweddaf—

"Pan bydd dorau beddau y byd
Ar un gair yn agoryd."

Yr oedd yn ddyn a gerid yn fawr fel cymydog, parod i estyn cymhorth i bob achos a dueddai i ddyrchafu moes, rinwedd, a lles dynolryw yn gyffredinol. Meddai ar dalent ddysglaer. Yn ei deulu yr oedd yn dad tyner, llawen, a siriol, ac yn ddyn gofalus a diwyd yn ei holl ymdrafodaeth â'r byd. Bu o dan Gwmpeini Haiarn Aberdâr am dros haner can' mlynedd, a cheffid ef bob amser yn gyfiawn rhwng meistr a gweithiwr, gan gefnogi diwydrwydd a chasau segurdod â chas perffaith, fel y tystiwyd dydd ei angladd. Gadawodd ar ei ol weddw alarus a phlant i alaru eu colled; ond na fydded iddynt i alaru fel rhai heb obaith, ond i ymgysuro ac ymdawelu yn alluog law ein Tad o'r nef, ac i ddywedyd yn ngeiriau yr Ysgrythyr, "Yr Arglwydd yw efe, gwnaed a fyddo yn dda yn ei olwg.

Ionawr 2, wedi hir a thrwm gystudd, William Griffith, o'r Nottais, yn 55 oed. Bu yn aelod gyda'r Bedyddwyr Undodaidd yn y lle uchod am 24 o flynyddoedd. Yr oedd yn ddyn o fuchedd hardd, o dymer dawel, yn dreiddgar ei feddwl, ac yn ymresymwr cryf dros eu olygiadau crefyddol. Anaml y clywir ei fath o

ran ei ddawn mewn gwedddi. Gadawodd weddw a dau fab i alaru ar ei ol, a theimlir ei eisiau yn fawr yn yr eglwys. Ar ddydd ei angladd cyn cychwyn i fynwent y Drefnewydd, gweinyddwyd yn y ty i dyrfa luosog gan yr ysgrifenydd.

Anwyl ddarllenydd, bydded symudiad ein cyfeillion, un ar ol y llall, yn rhybydd i ninau fwrw angor ein gobaith at yr hwn sydd wedi myned tu fewn i'r llen.

Ionawr 4, Evan Symons (tad-y'nghyfraith yr uchod), yn 82 oed. Gweinyddais yn ei angladd yntau. Yr oedd lluaws wedi dyfod y'nghyd heblaw ei berthynasau lluosog o blant ac wyrion. Bydded iddynt oll i drwsio eu lampau fel y byddont barod i gyfarfod â'r priod fab.

TITUS LLOYD.

Ionawr 10, o ddolur y galon, Mr. Thomas Howells, mab Evan a Gwenllian Howells, ger Trecynon, Aberdâr, yn 17 oed. Ni chafodd ond byr gystudd, canys yr oedd nos Sul cyn ei farwolaeth yn yr Hen Dy Cwrdd gyda'r côr yn canu fel arferol, ac yn ymddangos yn fwy gwrol nag y gwelwyd ef ys tro, ond boreu dydd Mawrth yn anisgwyliadwy, daeth cenad Iôr i'w gymeryd ymaith yn mlodau ei ddyddiau, er galar i'w deulu, fel gellir dwyn ar gof y geiriau hyny, "Nid fy ffyrdd i, yw eich ffyrdd chwi." Yr oedd yn aelod o'r Ysgol Sul yn yr Hen Dy Cwrdd ys blynyddau, a dangosai barodrwydd bob amser i wneyd a'allai, er dwyn y'mlaen yr achos daionus, gyda llawenydd a gwresogrwydd llaw a chalon, fel y tystiai yr Athraw a'r dosbarth y perthynai iddo yn yr Ysgol. Yr oedd yn batrwn i hen ac ieuangc i efelychu ei rodiad gweddus, a gobeithio y cymer ei gyd-ysgolheigion hyn at eu hystyriaethau, fel y byddo iddynt ymhyfrydu ac ymdrechu i wneuthur daioni yn eu dydd a'u tymor, ac i beidio meddwl ei wneyd y fory, "Canys yn yr awr ni thybiom y daw Mab y dyn." Y Gwener canlynol cyn cychwyn o'r ty, cafwyd pregeth gan y Parch. R. J. Jones, A.C., yna hebryngwyd ef i'r Gladdfa Newydd (*Cemetery*) i orphwys yn y "du oer wely daearolion." Diamau ei fod yn ergyd trwm i'w rieni i golli eu hanwyl fab mor sydyn o'u plith, ag oedd yn addaw bod o hir ddefnydd yn y byd; ond bydded iddynt i hyderu, a'u ffydd yn gref yn Nuw dan bob amgylchiad, ac i ddywedyd o'r galon, "Yr Arglwydd sydd yn teyrnasu, gorfoledded y ddaear, a llawenyched ynysoedd lawer."

Ionawr 12, o ddolur y galon, Mrs. Mary Edwards, Corner House, Llwydcoed, Aberdâr, yn 58 oed. Bu am tua blwyddyn o amser yn cael ei chystuddio gan glefyd trwm, a phob amser dyoddefai yn dawel i ewyllys ei Chrewr. Y dydd Sadwrn canlynol, cyn cychwyn o'r ty, pregethodd Mr. Jones, gweinidog yr Hen Dy Cwrdd, ac hebryngwyd hi wed'yn at ei pherthynasau i'r *Vault* ym mynwent Eglwys y plwyf. Bydded i ddyddanwch Efengyl Crist i gysuro ei pherthynasau sydd wedi eu gadael ar ol, yn wyneb yr ymadawiad.

*Aberdâr.* EIDDIL CYNON.

Ionawr 29, yn Pentregwenlais, wedi hir gystudd gan yr *Asthma*, Dafydd Thomas, yn 64 oed. Darfu iddo gyrchu i'w dy addoliad yn yr Onenfawr hyd ag y caniataodd ei rym. Yr oedd Dafydd Thomas yn ddyn prydferth, tawel, a charuaidd, ac yn gymydog cymwynasgar. Mae hyn yn gysur mawr i'w weddw ar ei ol.

---

ARGRAFFWYD GAN C. & D. JONES, LLYFRWERTHWYR, CAERFYRDDIN